# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bevris Support Ltd**

**Seasons House**
**Pentref Busnes Lakeside**
**Parc Dewi Sant**
**Ewloe**
**CH5 3YE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/10/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Bevris Support Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Bevris Support Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar 16 Ionawr 2019. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth wych mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt, a chânt gymorth effeithiol iawn fel unigolion i wneud dewisiadau, byw bywydau llawn a chynnal eu hannibyniaeth. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus a chânt eu cefnogi'n dda gan dîm o staff effeithlon, sydd wedi'i hyfforddi'n dda. Mae'r bobl sy'n cael gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu bod yn rhan o dîm Bevris ac yn ystyried y staff gofal a'r rheolwyr yn ffrindiau.

Mae prosesau goruchwylio eithriadol gan dîm rheoli clòs yn golygu bod y gofal yn gyson ac yn aros yn berthnasol i anghenion newidiol y bobl. Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn monitro'r gwasanaeth yn barhaus mewn ffordd reolaidd a chadarn. Mae adborth rheolaidd gan amrywiaeth eang o ffynonellau allanol yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y ffordd orau bosibl. Caiff pecynnau hyfforddi arbenigol eu darparu i'r staff sy'n benodol i bob unigolyn y maent yn ei gefnogi. Mae llesiant cadarnhaol y bobl a gefnogir yn ganolog i bopeth y mae Bevris yn awyddus i'w gyflawni. Dywedodd y bobl y cawsom sgwrs â nhw fod y cymorth a gânt gan Bevris yn mynd y tu hwnt i'w disgwyliadau, gan drawsnewid eu llesiant corfforol a meddyliol, ynghyd â'u bywydau, er gwell.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth, a chânt ddewis a rheolaeth wych dros eu bywydau o ddydd i ddydd, gydag ymreolaeth unigol i ddewis eu tîm o staff. Mae sylw craff i fanylion yn y cynlluniau gofal a chymorth yn sicrhau bod pecyn wedi'i deilwra ar waith i ddiwallu anghenion unigol. Rhoddir hyfforddiant cynhwysfawr i'r timau o staff, yn unol ag anghenion unigol pob person. Mae nifer o gyfleoedd i'r bobl sy'n cael pecynnau gofal roi adborth a darperir yr holl wybodaeth mewn fformat sy'n diwallu anghenion yr unigolyn. Mae'r bobl yn cael y cymorth a'r gofal priodol i roi'r rhyddid iddynt fyw bywydau annibynnol ac ystyrlon.

Mae mesurau ar waith i ddiwallu anghenion corfforol, iechyd meddwl ac emosiynol y bobl yn dda iawn. Mae'r strategaethau rheoli risgiau yn wych a chânt eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod y gallu i gymryd risgiau cadarnhaol yn rhoi'r rhyddid i'r bobl wneud popeth sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn gweithio tuag at ganlyniadau realistig a chânt adborth parhaus ar y cynnydd cadarnhaol maent yn ei wneud. Mae'r bobl yn teimlo bod y staff a'r rheolwyr yn gwrando ar eu hanghenion a'u dymuniadau yn dda, a bod ganddynt lais y mae pawb yn ei glywed. Caiff anghenion eu hasesu a'u hystyried yn ofalus cyn i'r gwasanaeth gytuno ar becyn gofal. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer hyfforddiant arbenigol penodol ar gyfer y staff a sylw craff i fanylion i gefnogi llesiant. Mae pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar y person fel unigolyn. Mae'r cymorth a roddir yn darparu gwelliannau helaeth ac ystyrlon i lesiant pob unigolyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae’r bobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae systemau a pholisïau ar waith i gefnogi'r bobl yn dda a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae goruchwyliaeth glir gan yr unigolyn cyfrifol, ynghyd â dull ymarferol yn sicrhau ansawdd rhagorol o ran yr holl becynnau gofal sydd ar waith. Mae'r bobl a'r staff yn gwybod sut i leisio pryderon. Mae timau staff sefydlog yn darparu parhad gofal i'r bobl, gan alluogi cysylltiadau ystyrlon a chymorth effeithiol. Mae cynlluniau gofal a chymorth cywir gyda strategaethau cadarn ar gyfer rheoli risgiau yn cefnogi'r staff i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r bobl a'r staff yn hapus ac yn hapus ac yn fodlon eu byd.

## Gofal a Datblygiad

Mae ystyried safbwyntiau ac anghenion y bobl yn effeithiol, ochr yn ochr â safbwyntiau ac anghenion y rhanddeiliaid, yn sicrhau y gellir darparu gwasanaeth priodol i ddiwallu anghenion unigol. Cyn cytuno ar becyn gofal, bydd y rheolwyr yn casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael ac yn llunio adroddiad asesu. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi'r bobl, gan gynnwys amrywiaeth eang o gymhorthion a dulliau cyfathrebu, yn dibynnu ar anghenion unigol. Caiff unrhyw hyfforddiant arbenigol ar gyfer y staff ei gomisiynu a'i ddarparu. Neilltuir amser i'r staff drosglwyddo gwybodaeth i'w gilydd yn effeithiol, nad yw'n effeithio ar amser gofal y bobl.

Mae gan y bobl gynlluniau gofal a chymorth cywir a manwl ar waith sy'n ystyried yn ofalus y ffordd y dylid diwallu eu holl anghenion yn effeithiol. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae pob unigolyn a gefnogir, neu ei eiriolwr, yn cymryd rhan flaenllaw yn y broses o ysgrifennu'r cynlluniau gofal a chymorth a'i gadw'n gyfredol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod popeth sy'n bwysig i'r unigolyn yn cael eu trafod a'i drefnu. Mae'r staff yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd, ac yn rhannu diweddariadau â phob tîm unigol o staff, yn ogystal â'r unigolyn a gefnogir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Cynhelir asesiad risg effeithiol ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, gan ystyried dymuniadau a dyheadau personol y bobl yn ofalus. Mae'r bobl yn cynllunio eu hamser eu hunain gyda'r staff ac maent yn rhydd i newid y cynlluniau hyn yn unol â'u hwyliau a'u hanghenion ar y pryd. Mae sicrhau parhad o ran y staff yn flaenoriaeth ac, o ganlyniad, mae parhad o ran y staff yn un o gryfderau allweddol y gwasanaeth. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i deimlo'n rhan o gymuned ehangach ac maent yn ystyried y timau o staff yn ffrindiau yn hytrach na gofalwyr. Dywedodd pawb y cawsom sgwrs â nhw pa mor dda roedd y gwasanaeth yn eu cefnogi, gan wneud sylwadau am y ffordd roedd y cymorth wedi newid eu bywydau a rhoi'r rhyddid iddynt fyw bywydau annibynnol yn y ffordd sy'n bwysig iddynt.

Mae mesurau effeithiol yn diogelu'r bobl drwy bolisïau a gweithdrefnau cadarn, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u trosglwyddo i'r staff. Mae'r bobl yn gwybod sut i godi pryder os bydd angen iddynt wneud hynny, ac mae gan y staff wybodaeth wych am y prosesau a'r gweithdrefnau diogelu. Mae gan y bobl gydberthnasau gwych â'r staff ac, o ganlyniad, maent yn parchu ei gilydd ac yn ymddiried yn ei gilydd. Mae gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael i'r bobl, a dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw wrthym sut roedd y gwasanaeth a ddarperir yn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth, ynghyd â darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae'r staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rhan o'r gwaith o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau. Mae'r staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod y polisïau a'r gweithdrefnau hyn â'r rheolwyr yn ystod sesiynau goruchwylio ac mae llawlyfr y staff yn darparu canllawiau iddynt. Mae polisïau ar gael mewn fformatau gwahanol i ddiwallu anghenion y bobl a gefnogir ac mae'r gwasanaeth yn gallu darparu pecyn gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen.

Mae trefniadau goruchwylio'r gwasanaeth, drwy brosesau sicrhau ansawdd a gwneud datblygiadau a gwelliannau parhaus, yn gadarn ac yn effeithiol, gan alluogi'r unigolyn cyfrifol i gael gwybodaeth gyfredol am y gwasanaeth a chanlyniadau'r unigolion. Mae cyfarfodydd y tîm rheoli, a gaiff eu holrhain yn electronig, yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i bennu camau gweithredu penodol i aelodau penodol o'r staff ac i gadarnhau cynnydd. Mae gan Bevris ethos cryf o gydweithio, yn hytrach na strwythur rheoli llinol. Mae gwaith papur arbenigol ym mhob prosiect yn olrhain yr adnoddau a'r cyfarpar sydd eu hangen, gan alluogi'r staff i gael yr offer priodol i wneud eu gwaith yn effeithiol. Adolygir canlyniadau ar gyfer yr unigolion yn rheolaidd. Lle mae canlyniadau personol wedi cael eu cyflawni, mae'r gwasanaeth yn egluro i'r unigolyn a gefnogir am y cynnydd cadarnhaol maent yn ei wneud.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r tîm o staff yn gymwys, ac yn meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant priodol. Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio gweithwyr asiantaeth, ac mae proses paru ar waith i sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi gan staff y maent yn fodlon ac yn gyfforddus â nhw. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eiriolwr neu aelod o'r teulu yn cael eu cynnwys yn y broses o recriwtio staff er mwyn sicrhau bod y broses hon yn canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn. Mae diddordebau'r staff yn ffactor pwysig yn ystod y broses recriwtio, er mwyn sicrhau eu bod yn debyg i ddiddordebau'r bobl y byddant yn eu cefnogi. Mae pob un o'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cadw'r gofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r staff yn hapus yn eu gwaith ac yn canmol y bobl maent yn eu cefnogi, eu cydweithwyr a'r tîm rheoli. Mae'r hyfforddiant staff yn gynhwysfawr ac yn gyfredol. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith maent yn ei wneud.

## Yr Amgylchedd

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol | | |
|---|---|---|
| Dim | | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/01/2021